

Cyfarwyddyd Cynllun y Gist Gymunedol

Uchafswm y Grant	£1,500
Isafswm y Grant	Yn unol â disgresiwn panel y Gist Gymunedol
Proffil Talu	Taliad 100% ymlaen llaw drwy BACS
Cyfraniad yr Ymgeisydd tuag at y Prosiect	Mae disgwyl i'r ymgeisydd gyfrannu'r diffyg os yw cyfanswm costau'r prosiect yn fwy na £1,500
Pwrpas y Grant	<ul style="list-style-type: none"> • Cynyddu cyfranogiad • Codi Safonau
Pwy all wneud cais?	<p>Unrhyw grŵp sydd â chyfrif (mewn banc, Cymdeithas Adeiladu neu Undeb Credyd) yn enw ei sefydliad. Mae'n bur debyg y byddwch yn un o'r canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Clwb neu Gymdeithas Chwaraeon • Clwb Ieuenctid • Grŵp Cymunedol
Pwy na all wneud cais?	<ul style="list-style-type: none"> • Ysgolion cynradd / uwchradd sy'n trefnu gweithgareddau ar gyfer eu disgyblion • Aelodau unigol o'r cyhoedd • Awdurdodau Lleol • Sefydliadau y mae eu prosiect arfaethedig wedi dechrau eisoes
Aelodaeth o Gorff Rheoli Chwaraeon Cenedlaethol	<p>Mae Chwaraeon Cymru yn argymhell bod eich sefydliad yn aelod o Gorff Rheoli Cenedlaethol eich Camp.</p> <p>Er lles diogelwch, mae'n rhaid i sefydliadau sy'n cymryd rhan mewn rhai chwaraeon penodol fod yn aelodau o'r corff rheoli cydnabyddedig – am restr o'r chwaraeon hyn, ewch i'n gwefan</p>
Beth ellir ei gyllido?	<ul style="list-style-type: none"> • Prosiectau sy'n arwain at fwy o gymryd rhan ac yn codi safonau • Offer ychwanegol i gefnogi twf mewn aelodaeth neu'n codi safonau • Addysgu hyfforddwyr a datblygu gwirfoddolwyr • Llogi cyfleusterau er mwyn dechrau arni a chostau hyfforddwyr ar gyfer sesiynau newydd – hyd at 20 wythnos neu sesiwn

Cyfarwyddyd Cynllun y Gist Gymunedol

<p>Beth na ellir ei gyllido?</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Eitemau personol o offer neu git • Arlwyo a lletygarwch • Medalau, tystysgrifau a thlysau • Teithiau cartref a thramor • Digwyddiadau unigol heb gyswllt â gweithgareddau parhaus • Costau rhedeg o ddydd i ddydd • Prosiectau sydd wedi dechrau eisoes • Prosiectau lle mae'r gweithgaredd yn cael ei gynnal y tu allan i Gymru • Yswiriant / Ffioedd Cynghrair / Aelodaeth / Gweithgareddau sy'n cael eu hystyried fel rhan o fusnes 'craidd' yr ymgeisydd • Prosiectau sy'n cael eu hystyried fel rhan o gostau rhedeg o ddydd i ddydd arferol y sefydliad • Gweithgareddau corfforol fel garddio, DIY, gwelliannau amgylcheddol, dawns perfformiad neu sgiliau syrcau • Cynnal a chadw, trwsio neu newid offer neu gyfleusterau presennol (ond rhoddir ystyriaeth i newid offer nad yw'n cydymffurfio bellach â'r ddeddfwriaeth bresennol) • Aelodaeth neu ffioedd cofrestru
<p>Monitro</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Yr holl brosiectau i gwblhau ffurflen Adroddiad Cwblhau Prosiect (ACP); • Bydd posib i'r holl brosiectau fod yn rhan o sampl ar hap o 5% a ddewisir ar gyfer eu monitro a/neu sampl a ddewisir yn benodol.
<p>Amodau / Cyfyngiadau'r Grant</p>	<ul style="list-style-type: none"> • Caiff sefydliad gyflwyno mwy nag un cais ond ni chaiff dderbyn mwy nag uchafswm y grant bob blwyddyn • Ni chaiff sefydliadau wneud cais am grant arall nes bod y ffurflen Adroddiad Cwblhau Prosiect (ACP) wedi'i dychwelyd a'i chymeradwyo gan y panel
<p>Cyn Cyflwyno Eich Cais ...</p>	<p>Cofiwch am y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Esboniwch yn glir ar eich ffurflen gais beth rydych yn bwriadu ei wneud a pham • Gwnewch yn siŵr bod dyddiad dechrau'r prosiect ar eich ffurflen yn gywir, oherwydd ni allwn gyllido unrhyw beth sydd wedi dechrau eisoes • Rhaid bod yn aelod o'r Corff Rheoli Cenedlaethol priodol os yw eich camp yn gamp risg uchel • Rhaid bod wedi cofrestru gyda CSYP os yw eich prosiect yn cynnwys elfen ffitrwydd – i gael rhagor o wybodaeth am gofrestru gyda CSYP, cliciwch yma

Cyfarwyddyd Cynllun y Gist Gymunedol

sportwales
chwaraeoncymsu

Rhagor o Wybodaeth	Cysylltwch â Swyddog Grantiau perthnasol eich Awdurdod Lleol (SGALI). Am restr o fanylion cysylltu, cliciwch yma
-------------------------------	--